


Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-18

Hydref 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-18

Hydref 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

# Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Simon Thomas AC (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Steffan Lewis AC**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Eluned Morgan AC**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Nick Ramsay AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Mark Reckless AC**
UKIP Cymru
Dwyrain De Cymru



**David Rees AC**
Llafur Cymru
Aberafan

# Cynnwys


Argymhellion ..... 5

01. Cyflwyniad ..... 6

02. Blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad: ..... 8

03. Adnoddau ..... 10

04. Penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau ..... 12

05. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ..... 14

Atodiad 1 - Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 16

# Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manylion yng 'Nghyllideb Ddrafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017-18' ac, yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2017-18, ac yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi'r gyllideb hon. ........................... 9

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Pumed Cynulliad wrth iddo symud ymlaen, ond er mwyn sicrhau tryloywder a chynnig eglurder, argymhellir y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, yn dilyn yr ymarfer cynllunio capasiti manwl, ynglŷn â sut y defnyddiwyd yr adnoddau a ddyrennir. ................................. 11

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fuan cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan fanylu ar y tanwariant a ddisgwylir o ran yr arian a ryddhawyd i gyllido penderfyniad y Bwrdd Taliadau a chyfiawnhau sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant hwn. ........................................................................................ 13

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r gyllideb ddrafft gynnwys dadansoddiad manwl yn y dyfodol o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau buddsoddi TGCh. ............................................................................... 15

# 01. Cyflwyniad

## Cefndir

**1.** Mae Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[1]

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.14 yn nodi:

> "Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell amrywiadau yn y symiau a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft ar yr amod na fyddai effaith net yr amrywiadau hynny'n cynyddu cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn."[2]

## Cyllideb Comisiwn y Cynulliad

### Cynnydd yng nghyllidebau'r Cynulliad yn y gorffennol

**3.** Roedd Cyllideb Derfynol 2012-13 Comisiwn y Cynulliad ("y Comisiwn") yn cynnwys rhaglen fuddsoddi tair blynedd o gynnydd uwch na chwyddiant y cytunwyd arno gan Bwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad i gefnogi'r gwaith o wella capasiti o ran datganoli pwerau ychwanegol i'r Pedwerydd Cynulliad, ond nododd y Pwyllgor hwnnw na ddisgwyliwyd i unrhyw gynnydd yn 2015-16 na'r blynyddoedd dilynol fod yn fwy nag unrhyw newidiadau ym mloc Cymru.

### Newidiadau cyffredinol i gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017-18

**4.** Ac eithrio cyllidebau sydd wedi'u neilltuo a rhai nad ydynt yn arian parod, mae'r Comisiwn yn gofyn am £49.9 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2017-18, o gymharu â £48.9 miliwn yn 2015-16, sef cynnydd o £1.0 filiwn mewn arian parod neu 2.1 y cant. Y tu hwnt i'r amcangyfrif hwn, mae £1.2 miliwn wedi'i gyllidebu ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol, sef gostyngiad o £300,000.[3] Amcangyfrifir costau o £2.6 miliwn ar gyfer dibrisiant ac amorteiddiad, sef £400,000 yn is eleni, ac ni fydd unrhyw wariant ar etholiadau. Mae'r gyllideb weithredol o £53.7 miliwn a gynigiwyd gan y Comisiwn yn cynnwys:

- Cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn, sef £34.4 miliwn, o gymharu â £33.5 miliwn, sef cynnydd o 2.8 y cant;[4]
- Cyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau[5] ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sef £15.5 miliwn, sydd 0.4 y cant yn fwy na chyllideb 2016-17.

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.13
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.14
[3] Roedd y gyllideb y llynedd yn cynnwys £300,000 wrth gefn ar gyfer unrhyw addasiadau cyfrifyddu ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i'r cynllun pensiwn
[4] Yr amcangyfrif diweddaraf ar gyfer datchwyddwyr CMC yn 2017-18 yw 1.8 y cant, fel yng nghyllideb mis Mawrth 2016. Defnyddir y ffigur hwn i amcangyfrif chwyddiant termau real

**5.** Mae cais y Comisiwn yn uwch na'r amcangyfrif diweddaraf o'r newid i Floc Cymru ar gyfer 2017-18, sef 0.8 y cant mewn refeniw neu 0.7 y cant o gyfanswm y DEL (y Terfyn Gwariant Adrannol).

| **Cyllideb weithredol** | **2016-17** | **2017-18** | **Newidiadau 2016-17 i 2017-18** | |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | % |
| Adnoddau staff | 20,391 | 21,349 | 958 | 4.7% |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 13,079 | 13,064 | -15 | -0.1% |
| Is-gyfanswm | 33,470 | 34,413 | 943 | 2.8% |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau | 15,468 | 15,532 | 64 | 0.4% |
| **Cyllidebau nad ydynt yn arian parod sydd wedi'u neilltuo** | | | | |
| Dibrisiant | 3,000 | 2,600 | -400 | -13.3% |
| Gwariant a reolir yn flynyddol (AME) | 1,500 | 1,200 | -300 | -20.0% |
| Gwariant yn ymwneud ag etholiadau | 2,500 | - | -2,500 | -100% |
| Is-gyfanswm | 7,000 | 3,800 | -3,200 | -45.7% |
| **Cyfanswm y Gyllideb** | **55,938** | **53,745** | **-2,193** | **-3.9%** |

Tabl 1: Cyllideb ddrafft 2017-18: Lefel uchel [6]

**6.** Bu'r Pwyllgor yn trafod Cyllideb Ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2017-18 yn ei gyfarfod ar 5 Hydref 2016, gan glywed tystiolaeth gan:

– Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad;

– Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu;

– Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid.

[5] Penderfyniad y Bwrdd Taliadau
[6] Cyllideb y Cynulliad 2017-18 (tudalen 3) ynghyd â chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil.

# 02. Blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad:

**7.** Mae'r cyflwyniad yn nogfen y gyllideb yn rhoi disgrifiad o'r prif ffactorau a fydd yn effeithio ar y Comisiwn ac yn llywio ei waith dros y blynyddoedd sydd i ddod:

> "...dau o'r prif ddylanwadau fydd y pwerau codi trethi newydd a chymhwysedd deddfwriaethol estynedig a ddatganolwyd yn sgil Bil Cymru...
>
> Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Comisiwn yn credu bod angen newid y modd yr ydym yn cynhyrchu, yn rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth fusnes y Cynulliad yn sylweddol er mwyn i'r Cynulliad gael ei ystyried yn senedd ddigidol o'r radd flaenaf sy'n agored, yn gynhwysol ac yn hawdd ymgysylltu â hi, gan arwain at gyfreithiau a phrosesau craffu gwell. Bydd y Comisiwn yn gweithio i wella'r ffordd y mae pobl yn ymgysylltu â'r Cynulliad a sut y darperir gwasanaethau i'r Aelodau. Bydd llawer o'r newidiadau hyn yn golygu ein bod yn gwneud pethau'n wahanol, yn hytrach nag mewn ffordd fwy costus, ond bydd y broses o drawsnewid y sail ar gyfer darparu cymaint o'n gwasanaethau yn golygu y bydd angen rhywfaint o fuddsoddiad ariannol."[7]

**8.** Mae'r gyllideb ddrafft yn mynd ymlaen i amlinellu tri nod strategol y Comisiwn:

– darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad;

– defnyddio adnoddau'n ddoeth.[8]

**9.** Yn ychwanegol at y gwariant a fwriedir ar gyfer 2017-18, mae'r Comisiwn wedi cynnwys cynlluniau dangosol a gofynion ariannol hyd at ddiwedd y Pumed Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r gyllideb ddrafft yn cydnabod bod "heriau'r Pumed Cynulliad yn debygol o ddod hyd yn oed yn fwy cymhleth",[9] ac mae'n nodi materion o bwys fel a ganlyn:

– Newid cyfansoddiadol;

– Goblygiadau canlyniad Refferendwm yr UE i Gymru a gwaith y Cynulliad;

– Capasiti - cynorthwyo'r Aelodau i ymateb i ofynion busnes;

– Byd digidol sy'n newid, ymgysylltu â'r cyhoedd a'r galw am fwy o dryloywder;

– Newid enw'r Cynulliad.[10]

**10.** Yn ei thystiolaeth, dywedodd Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu, mai dau o'r ffactorau tymor hwy yw materion fel ystafelloedd pwyllgor ychwanegol er mwyn sicrhau bod lle i'r ddau bwyllgor newydd a rhagor o le ar gyfer staff ychwanegol.[11]

**11.** Ychwanegodd Suzy Davies AC:

---

[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-18, Medi 2016
[8] ibid
[9] ibid
[10] ibid
[11] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 149

"…we can use what we've heard in the past to try and identify what is likely to happen in the future … any estimates we make are based on what we could expect based on what we've had before. I think that's probably the best way to put it. And in order to identify the demands of what we need to spend within our likely settlement, obviously we look at what we already know and we look at some implications that are probably easy to identify, so, for example, for Brexit, we are going to need some additional legal capacity … But beyond that, you are right, it is a little bit difficult to imagine where we're going to be in four years' time."[12]

## Safbwynt y Pwyllgor

**12.** Wrth ystyried cyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2017-18, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cryn ansicrwydd ynghylch yr arian sydd ar gael ar gyfer 2017-18 a blynyddoedd dilynol. Yng **nghyllideb y DU ym mis Mawrth**, nodwyd y byddai toriadau o £3.5 biliwn i wariant cyhoeddus erbyn 2019-20.[13] Nid yw'n glir eto beth fydd effaith y bleidlais i adael yr UE ar bolisi gwariant y DU, ac ni ddaw'n glir tan o leiaf 23 Tachwedd, pryd y disgwylir i Ddatganiad yr Hydref gael ei gyhoeddi.

**13.** Mae hefyd yn glir y bydd goblygiadau ehangach i adael yr UE wrth symud ymlaen, ond mae'n anodd amcangyfrif ar hyn o bryd faint o effaith a gaiff hyn ar Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod yna elfennau eraill sy'n ansicr, fel amseriad ac effaith y newidiadau sy'n deillio o Fil Cymru. At hynny, nid yw'r gyllideb ddrafft yn cynnwys cynllun buddsoddi ar wahân sydd wedi'i gostio.

**Casgliad 1.** Er ei bod yn ddefnyddiol cael syniad o wariant dangosol y Comisiwn ar gyfer y pedair blynedd nesaf, mae'r Pwyllgor yn credu, oherwydd yr ansicrwydd presennol mewn llawer o feysydd, y byddai'n amhriodol rhoi sylwadau ar y cynlluniau gwariant y tu hwnt i 2017-18.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r manylion yng 'Nghyllideb Ddrafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017-18' ac, yn amodol ar y sylwadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn, yn cefnogi'r cais cyffredinol am adnoddau yn 2017-18, ac yn argymell bod y Cynulliad yn cefnogi'r gyllideb hon.

[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 161-162
[13] Cyllideb y DU ym mis Mawrth

# 03. Adnoddau

**14.** Gellir gweld yn Nhabl 1 ar dudalen 7 mai'r prif reswm i Gomisiwn y Cynulliad ofyn am gynnydd o £1 filiwn yw'r cynnydd o £958,000 mewn adnoddau staff.

**15.** Mae cyllideb 2017-18 yn darparu ar gyfer 446 o swyddi. Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi mai'r prif adrannau lle y byddent yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer staff Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad (pwyllgorau, cyfathrebu, y cyfryngau digidol a chymorth deddfwriaethol), cyfieithu a chofnodi, a diogelwch. Tybir y bydd "twf cymedrol yn nifer y staff" yn ystod y Pumed Cynulliad.[14]

**16.** Yn y gyllideb ddrafft, mae'n nodi y "bydd angen strategaeth ar gyfer y gyllideb sy'n cynyddu adnoddau cyffredinol y Comisiwn yn gymedrol os bydd y Comisiwn am barhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau'r Cynulliad".[15]

**17.** Yn ei dystiolaeth, cydnabu'r Comisiwn y byddai angen cynnydd mewn staff. Dywedodd Suzy Davies AC:

> "…we also know that we're going to need additional staff in order to meet particular strategic aims like improved bilingualism within the culture of the whole of the Assembly, as well as specific support for Members. So, for example, we've got two extra committees in this Assembly, and, inevitably, that's going to need additional support, even if that's through integrated teams, as well as specialist support for those committees."[16]

**18.** Gan gyfeirio at y gwaith cynllunio capasiti sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, dywedodd Claire Clancy:

> "…those additional responsibilities of the Assembly are reflected in the capacity planning work that we're looking at next week, and so further increases—we're expecting to agree to the committee teams and also to the Research Service in particular. So, the main blocks of what we're going to be contemplating are to do with support to the committee services, particularly for new responsibilities and the two additional committees, and the outcome of the EU referendum—and the security service and communications. They're the three areas where we would expect to see, in our terms, fairly significant growth in the next couple of years."[17]

## Safbwynt y Pwyllgor

**19.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod blaenoriaethau'r Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad, ynghyd â'r pwyllgorau ychwanegol a'r newidiadau o ganlyniad i Fil Cymru yn debygol o olygu bod angen rhagor o staff. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb ddrafft yn rhoi unrhyw fanylion penodol ynghylch ble y cyfeirir y buddsoddiad ychwanegol o £958,000 yn 2017-18 o ran cynnydd mewn staff.

**20.** Yn ystod y sesiwn graffu, roedd yn amlwg bod y Prif Weithredwr yn cyflawni gwaith cynllunio capasiti gyda'i thîm rheoli a'i bod yn ystyried ceisiadau sylweddol am staff ychwanegol i gefnogi'r

[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2017-18, Medi 2016
[15] ibid
[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 147
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 378

gwaith o ymgysylltu â'r cyhoedd, i weithio'n ddwyieithog ac i gefnogi pwyllgorau ychwanegol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu bod cais wedi'i wneud am gyllid ychwanegol sylweddol yn y gyllideb heb ddadansoddiad cadarn o ble y cynigir cyfeirio'r adnoddau hyn.

**21.** Nododd y Pwyllgor hefyd y câi Prif Weithredwr newydd ei benodi tua dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y Prif Weithredwr newydd yn dilyn cyfeiriad strategol y Comisiynwyr presennol ac yn gweithio o fewn i'r gyllideb y cytunwyd arni. Gan dderbyn mai mater i'r Prif Weithredwr yw gwneud penderfyniadau ynghylch trefniadau staffio Comisiwn y Cynulliad, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen mynd ati, ar y cam cynnar hwn a chyn penodi Prif Weithredwr newydd, i graffu rywfaint ar y cynnydd sylweddol hwn yn nifer y staff. O ystyried bod Prif Weithredwr newydd yn cael ei benodi'n fuan, byddai'r Pwyllgor hefyd yn cwestiynu a yw manylion y penderfyniadau ariannu helaeth hyn wedi'u cwblhau ar gyfer y meysydd sy'n llai o flaenoriaeth cyn i'r penodiad gael ei wneud.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen adnoddau ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r Pumed Cynulliad wrth iddo symud ymlaen, ond er mwyn sicrhau tryloywder a chynnig eglurder, argymhellir y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, yn dilyn yr ymarfer cynllunio capasiti manwl, ynglŷn â sut y defnyddiwyd yr adnoddau a ddyrennir.

# 04. Penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau

**22.** Mae manylion ynghylch Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ym mhennod wyth o'r gyllideb ddrafft. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cadarnhaodd y Comisiwn mai'r hyn y gofynnir amdano yn y gyllideb ddrafft yw'r cyfanswm y byddai ei angen pe bai pob Aelod yn hawlio'r swm llawn y mae ganddo hawl iddo.

**23.** Mae Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus presennol ill dau wedi codi cwestiynau ynghylch tanwariant o ran penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. Wrth graffu ar Gyllideb y Cynulliad 2016-17, argymhellodd **y Pwyllgor Cyllid ar y pryd**[18] y dylai'r Comisiwn esbonio'n glir beth sy'n digwydd i'r arian nad yw'n cael ei hawlio gan Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau.

**24.** Mae cyfrifon Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2015-16 yn dangos bod tanwariant o dros £1 filiwn o ran Adnoddau yn ymwneud â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau (cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig).

**25.** Mae Tabl 2 yn dangos y tanwariant o ran Adnoddau yn ymwneud â phenderfyniadau Bwrdd Taliadau'r Pedwerydd Cynulliad:

£000'oedd

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| Y gyllideb o gymharu ag alldro | 881 | 562 | 439 | 775 | 1,047 |

Tabl 2: Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2011-12 i 2015-16[19]

**26.** Wrth sôn am sut y defnyddir y tanwariant hwn, dywedodd Suzy Davies AC:

> "…the way that our budget process works is that there's a foreseeable underspend—even though we're not entirely sure how much underspend there will be from the remuneration board—and then that is spent in accordance with the priorities of the Commission—its strategic goals that I mentioned earlier. The individual types of spend are then not only run through the individual management teams, but through the investment and resources board that I mentioned earlier. So, with any underspend or identifiable underspend, we will go to the investment and resources board and say, 'Look, this is what we need in order to meet our strategic goals. We're pretty sure we've got this money. These are our priorities for spending it. Will you sign that off?'"[20]

**27.** Eglurodd Claire Clancy y gellid gweld sut y caiff y tanwariant ei wario yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn:

> "… the transparency comes then through the publication of where the spend actually takes place in the annual report and accounts. So, you can then track through as to what was spent in practice on the remuneration board's determination and where the other spend occurred. So, there is complete

[18] Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-2017
[19] Adroddiadau Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2011-12 i 2015-16
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 264

transparency on what's happening to the money and anybody who wants to can assess it against whether it was used to meet the Commission's strategic goals."[21]

## Safbwynt y Pwyllgor

**28.** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod angen i'r Comisiwn gyllidebu ar gyfer y swm llawn y gall yr Aelodau ei hawlio. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Cyllid blaenorol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ac mae'n credu bod angen mwy o eglurder ynghylch tanwariant sy'n ymwneud â'r arian a ryddhawyd ar gyfer penderfyniad y Bwrdd Taliadau.

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn fuan cyn diwedd y flwyddyn ariannol, gan fanylu ar y tanwariant a ddisgwylir o ran yr arian a ryddhawyd i gyllido penderfyniad y Bwrdd Taliadau a chyfiawnhau sut y mae Comisiwn y Cynulliad yn defnyddio'r tanwariant hwn.

[21] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 265

# 05. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**29.** Yn ôl y gyllideb ddrafft, cafodd adnoddau eu targedu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad i ddechrau darparu gwasanaeth TGCh y Comisiwn yn fewnol, ac fe gwblhawyd y rhaglen drosglwyddo hon ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r gyllideb ddrafft hefyd yn nodi bod yr offer yn y Siambr wedi ei uwchraddio yn barod ar gyfer y Pumed Cynulliad.

**30.** Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi mai blaenoriaethau'r Pumed Cynulliad yw sicrhau bod y seilwaith TGCh yn gallu gwrthsefyll methiant ac yn cynnig mwy o hyblygrwydd drwy ddefnyddio gwasanaethau 'cwmwl', fel bod modd defnyddio'r gwasanaethau ble bynnag y byddwch neu ba bynnag ddyfais y byddwch yn ei defnyddio.

**31.** Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn datgan mai ei nod, o ran technoleg gwybodaeth, yw "trawsnewid y modd rydym yn cynhyrchu, yn defnyddio ac yn cyflwyno'r holl wybodaeth am y Cynulliad a'r gwasanaethau sydd ynghlwm wrtho, gan ganolbwyntio'n bendant ar yr hyn sydd ei angen ar ein cwsmeriaid – a sicrhau bod pawb yng Nghymru yn gallu gweld ac ymgysylltu â gwybodaeth seneddol ddibynadwy pryd bynnag, sut bynnag a lle bynnag y mynnant".[22]

**32.** Wrth roi tystiolaeth cyfeiriodd Suzy Davies at raglen dreigl o newidiadau TGCh,[23] ac anfonwyd nodyn dilynol yn rhoi manylion am y gwariant TGCh:

> "Mae buddsoddi mewn TGCh yn canolbwyntio ar alluogi defnyddwyr i weithio mewn ffordd mwy hwylus a hyblyg sy'n cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o 'wasanaethau yn y Cwmwl'. Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio hefyd ar wella gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio technoleg, yn ogystal â gwella mynediad at wybodaeth y Cynulliad a'i gwneud yn fwy defnyddiol."[24]

**33.** Mae'r nodyn hefyd yn rhoi manylion ychwanegol am y cynnydd yng nghyllideb darlledu 2017-18 a'r gostyngiad yn 2018-19, gan nodi bod y cynnydd yn deillio o'r penderfyniad i ariannu darpariaeth iaith arwyddion ar gyfer cwestiynau'r Prif Weinidog. Mae'r nodyn yn dweud:

> "Mae'r cynnydd yn y gyllideb ddarlledu ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu'r cytundeb i barhau â hyn am gyfnod o ddwy flynedd. Wedi hynny, caiff y ddarpariaeth ei hadolygu."[25]

## Safbwynt y Pwyllgor

**34.** Nododd yr Aelodau lwyddiant y rhaglen i ddarparu gwasanaethau TGCh yn fewnol ac roeddent yn canmol y Comisiwn am wneud hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu am y diffyg eglurder ynghylch costau TGCh wrth symud ymlaen.

**35.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad yw'r Comisiwn yn cynnwys costau dangosol ar gyfer darparu iaith arwyddion i gyd-fynd â'r Cwestiynau i'r Prif Weinidog y tu hwnt i 2017-18 ac mae'n cwestiynau pam nad yw'r Comisiwn yn nodi darpariaeth ddangosol ar gyfer parhad y gwasanaeth hwn.

---

[22] Llythyr at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 21 Ionawr 2016
[23] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 5 Hydref 2016, paragraff 173
[24] Nodyn i'r Pwyllgor oddi wrth y Comisiwn
[25] ibid

Mae'n anodd cadarnhau a yw'r Comisiwn yn bwriadu rhoi'r gorau i ariannu'r ddarpariaeth hon, neu os ydyw am iddo barhau pam nad yw'n cael ei gynnwys yn y costau dangosol ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r gyllideb ddrafft gynnwys dadansoddiad manwl yn y dyfodol o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosiectau buddsoddi TGCh.

# Atodiad 1 – Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld **trawsgrifiad** o'r sesiwn dystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| 5 Hydref 2016 | Suzy Davies AC, Comisiynydd y Gyllideb a Llywodraethu |
| | Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad |
| | Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid |